Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg |
This document is also available in Welsh

## Ystadegau swyddogol

# Ansawdd a Methodoleg: Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd: Awst i Hydref 2024

**Cyfeirnod:** Sta/Medr/10/2025 – **Atodiad A**

**Dyddiad:** 07 Mai 2025

**Crynodeb:**

Ystadegau ar rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd. Yn cynnwys data chwarterol ynghylch nifer y rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd.

**Cyswllt:**

ystadegau@medr.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## Data dros dro

Cynhyrchir yr ystadegau yn yr adroddiad hwn bob chwarter. Ffigurau dros dro yw'r rhai chwarterol am eu bod yn seiliedig ar ddata wedi'u rhewi'n gynharach o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Bydd y data hyn yn parhau i gael eu diweddaru nes rhewi'r data am y tro olaf ym mis Rhagfyr ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd.

Caiff y ffigurau dros dro ar gyfer y flwyddyn eu pennu'n derfynol pan gaiff data Ch4 (Mai i Orffennaf) eu cyhoeddi ym mis Chwefror/Mawrth bob blwyddyn, yn seiliedig ar y data a gafodd eu rhewi ym mis Rhagfyr.

## Dechreuadau mesur targed

Yn yr ystadegau ar gyfer y mesurau targed defnyddir dull mwy trwyadl o fesul dechreuadau rhaglenni prentisiaeth nag ystadegau eraill yn yr allbwn hwn. Mae'r dull hwn o fesur yn rhoi cyfrif am rai sy'n tynnu'n ôl yn gynnar (o fewn yr 8 wythnos gyntaf) ac am drosglwyddiadau rhwng prentisiaethau.

Mae gradd-brentisiaethau bellach wedi'u cynnwys yn y mesur targed presennol. Mae gradd-brentisiaethau yng Nghymru yn rhoi'r cyfle i gyfuno gweithio ag astudio'n rhan-amser yn y brifysgol. Daw'r data o'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Er bod ystadegau gan HESA wedi'u cyfrifo fel y gellir eu cymharu cymaint â phosibl ag ystadegau ar gyfer rhaglenni prentisiaethau eraill a geir o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) (er enghraifft, peidio ag ystyried pobl sy'n gadael rhaglenni'n gynnar), bydd rhai gwahaniaethau methodolegol yn parhau. Yn wahanol i'r LLWR, mae data HESA ar gael yn flynyddol yn unig. A bydd ystadegau ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiweddaraf sydd ar gael yn cael eu cynnwys ym mhob diweddariad ar gyfer Chwarter 4.

## Rhagor o wybodaeth am ansawdd

Heblaw am y data dros dro a'r mesur targed, cynhyrchir yr ystadegau hyn yn yr un modd â'r ystadegau yn yr Adroddiadau blynyddol addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran ansawdd yr adroddiadau hynny.

## Datganiad cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â'n Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau a pholisïau ystadegol eraill

Mae'r ystadegau swyddogol achrededig hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

## Dibynadwyedd

Sicrheir hyn drwy gydymffurfiaeth ystadegwyr proffesiynol â'r Cod Ymarfer Ystadegau. Caiff dyddiadau rhyddhau eu cyhoeddi ymlaen llaw, a chedwir at brotocolau'n gysylltiedig â chyfrinachedd data.

## Ansawdd

Daw'r data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu. Defnyddir y data hyn hefyd i benderfynu ynghylch cyllid i ddarparwyr dysgu, ac maent yn destun archwiliad.

Pan gyflwynir y data, rhaid iddynt fodloni rheolau dilysu penodol. Pan gaiff yr ystadegau eu cynhyrchu cynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

## Gwerth

Mae’r ystadegau hyn yn rhoi cipolwg cyflymach o'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau yng Nghymru na'r adroddiadau a lunnir yn flynyddol. Fe'u defnyddir i fonitro a gwerthuso'r sector. Maent yn adrodd ar gynnydd yn erbyn targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

www.medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government